

**Tasg 2**

# Dau fywyd

**Digartref**

1. Mae un o'r dynion yn ddigartref.

Mewn grŵp, meddyliwch am resymau pam mae'n ddigartref. Rhaid i bawb ysgrifennu rheswm ar *post-it* a rhaid rhoi'r *post-it* ar ganol y bwrdd.

Os ydych chi eisiau help, edrychwch ar y wefan hon:

<https://sheltercymru.org.uk/cy/7-fford/>

Yn eich tro, eglurwch beth, yn eich barn chi, sydd wedi digwydd iddo fel ei fod yn ddigartref. Rhowch resymau i gefnogi'r hyn rydych chi'n ei ddweud.

2. Chwiliwch am wybodaeth am ddigartrefedd yng Nghymru.

Gwnewch nodiadau.

Rhannwch y wybodaeth yn ystod y wers nesaf.